# Gweithgaredd hyfforddiant staff

## Taflen cyfarwyddiadau ar gyfer y gweithgaredd

Gall DSP ddefnyddio’r gweithgaredd hwn er mwyn archwilio mater delweddau noeth a hanner noeth gyda staff. Fe'i dyluniwyd i ddarlunio amrywiaeth o senarios, ac mae’n amlygu bod angen ystyried ymateb priodol a chymesur ar gyfer pob digwyddiad.

## Cyfarwyddiadau i’r hyfforddwr

### Adnoddau angenrheidiol

- Taflen adnoddau 1 – diffiniadau teipoleg (un i bob cynrychiolydd)
- Taflen adnoddau 2 – astudiaethau achos (un i bob grŵp)
- Taflen adnoddau 3 – ymateb (un i bob cynrychiolydd)
- Cerdyn lliw – chwe lliw
- Pwti gludiog

### Gwaith paratoi

Paratowch set o gardiau astudiaethau achos i bob grŵp (mae hyn yn cymryd ychydig o amser, ond gall y cardiau gael eu hailddefnyddio). Os yw'n well gennych, gallwch ddefnyddio astudiaethau achos anhysbys rydych chi’n ymwybodol ohonynt.

Mae’r 15 astudiaeth achos (Taflen adnoddau 2) yn cyfateb i’r chwe chategori teipoleg, fel a ganlyn:

- gwaethygedig – oedolyn (astudiaethau achos 4 a 7)
- gwaethygedig – person Ifanc gyda bwriad o niweidio (astudiaethau achos 3, 5, 6, 8 a 12)
- gwaethygedig – person ifanc, camddefnydd byrbwyll (astudiaethau achos 9 a 10)
- arbrofol – rhamantus (astudiaethau achos 2, 11 a 12)
- arbrofol – ceisio sylw (astudiaethau achos 1, 13, 14)
- arbrofol – arall (astudiaeth achos 15)

Aseiniwch gerdyn lliw penodol i bob un o’r chwe chategori uchod, yna torrwch pob un o’r 15 astudiaeth achos a’u gosod yn unol â hynny.

Paratowch chwech o gardiau ‘pennawd’ gwyn ar gyfer eu gosod ar wal – dylai teitl un o’r teipolegau fod ar bob cerdyn.

**Gweithgaredd**

1. Rhannwch y cynrychiolwyr yn grwpiau o 3 neu 4. Pan fo'n briodol, cymysgwch y cynrychiolwyr fel eu bod yn cynnwys ystod eang o brofiad a swyddi.

2. Rhowch set o gardiau astudiaethau achos i bob grŵp (y 15 os bydd amser yn caniatáu, os nad, sicrhewch bod ganddynt o leiaf un o bob lliw).

3. Dywedwch wrth y cynrychiolwyr am ddarllen pob astudiaeth ac ystyried y cwestiynau canlynol fel grŵp.

- Pa lefel risg maent yn credu sy'n gysylltiedig â phob achos – gwyrdd/coch/melyn?
- Pa gamau ddylai'r lleoliad eu cymryd?
- Yn ystod y cam hwn, pa rai o'r astudiaethau achos fyddent yn eu hatgyfeirio i'r heddlu neu wasanaethau cymdeithasol?
- Ar y cam hwn, cynllun gweithredu syml – dim mwy na thri munud i bob achos.

4. Rhowch gopi o Daflen adnoddau 1 i bob aelod o'r grwpiau a thrafod teipoleg Finkelhor a Wolak gyda nhw. Bydd teipoleg Finkelhor a Wolak yn eu helpu i ddiffinio'r math o digwyddiad a bydd hefyd yn eu helpu i benderfynu ar yr ymateb priodol a chymesur.

5. Rhowch gopi o Daflen adnoddau 3 i bob cynrychiolydd a gofyn iddynt fel grŵp i benderfynu pa gategori o deipoleg fyddent yn ei aseinio i bob astudiaeth achos. Gofynnwch iddynt gofnodi unrhyw sylwadau ar eu taflenni.

6. Tra bod y cynrychiolwyr yn gweithio, defnyddiwch y pwti gludiog i osod y chwe cherdyn 'pennawd' o gwmpas yr ystafell.

7. Ar ôl i'r cynrychiolwyr gategoreiddio pob un o'u hastudiaethau achos. gofynnwch iddynt osod y cardiau ar y wal o dan y cerdyn 'pennawd' priodol sydd o gwmpas yr ystafell. (Daw'n amlwg yn eithaf sydyn bod y lliwiau'n cyfateb mewn grwpiau ac mae'n dangos pan fo grwpiau'n cytuno neu anghytuno ar gategoreiddio.)

8. Rhowch sylwadau ar yr enghreifftiau o gytuno ac anghytuno er mwyn amlygu'r amrywiaeth yn y ffordd o feddwl rhwng y grwpiau.

9. Dewiswch amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n adlewyrchu'r gwahanol deipolegau, er enghraifft rhamantus, ceisio sylw, gwaethygedig – oedolyn, a gofyn i'r cynrychiolwyr ystyried y canlynol.

- A yw unrhyw rai o'r astudiaethau achos yn adlewyrchu unrhyw rai o'r pum pwynt ar gyfer atgyfeirio ar unwaith i asiantaethau eraill?
- Os ydynt, i ba asiantaeth allanol dylid atgyfeirio, a pham?
- Os nad oes angen atgyfeirio i asiantaeth allanol, pam ddim?

10. Yn achos yr astudiaethau achos na chyrhaeddodd y trothwy atgyfeirio, gofynnwch i'r grwpiau ystyried eu hymateb.  Dylai hynny gynnwys ystyriaeth o sut fyddent yn ymateb fel lleoliad. Dylent ystyried y canlynol:

- Sut byddid yn rhoi cymorth i'r plentyn?
- Sut byddid yn hysbysu'r rhieni neu ofalwyr?
- Sut byddid yn delio â dileu neu waredu'r delweddau?
- Sut byddid yn cofnodi'r digwyddiad?
- Pwy fyddai'n arwain o ran rheoli'r digwyddiad?
- Beth fyddai'n digwydd ar ôl rheoli'r digwyddiad?

11. Caniatewch i grwpiau bach drafod y testunau hyn, a phan fo’n bosibl anogwch hwy i gyfeirio at brif gorff y cyngor.  Cyfeiriwch at unrhyw elfennau allweddol i’w trafod a manteisiwch ar y cyfle i atgoffa staff am unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol mewn perthynas â rheoli digwyddiadau o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan ieuenctid.

**Taflen Adnoddau 1** (Addaswyd o Wolak a Finkelhor 'Sexting: a Typology' Mawrth 2011)

1. Mae **digwyddiadau gwaethygedig** yn cynnwys elfennau troseddol neu gamdriniol y tu hwnt i greu, anfon neu feddu ar ddelweddau noeth neu hanner noeth.

   - Mae **troseddwyr sy'n oedolion** yn ceisio paratoi pobl ifanc yn eu harddegau i gyflawni troseddau rhywiol hyd yn oed heb ddefnyddio delweddau a gynhyrchir gan ieuenctid. Gall dioddefwyr fod yn ffrindiau i'r teulu, perthnasau, aelodau o'r gymuned neu bobl y cysylltir â hwy ar y rhyngrwyd. Gall y delweddau rhywiol a gynhyrchir gan ieuenctid gael eu rhannu gyda'r troseddwyr sy'n oedolion ar ôl iddynt ofyn amdanynt.
   - Mae **Ieuenctid yn unig: achosion o fwriad i niweidio** yn deillio o wrthdaro rhyngbersonol megis tor perthynas a gwrthdaro ymysg ffrindiau gan gynnwys ymddygiad troseddol neu gamdriniol megis blacmel, bygythiadau neu dwyll, neu gamdriniaeth neu gamfanteisio rhywiol.
   - Yn achos achosion **Ieuenctid yn unig:** gyda **chamddefnydd di-hid** nid oes bwriad i niweidio, ond mae delweddau yn cael eu cymryd neu eu hanfon yn ddiarwybod i'r person ifanc yn y llun neu heb iddo gymryd rhan yn fwriadol yn y digwyddiad. Yn yr achosion hyn mae lluniau yn cael eu tynnu neu eu hanfon yn ddifeddwl neu'n fyrbwyll, ac efallai y bydd dioddefwr yn cael ei niweidio o ganlyniad i hynny.

2. Mae **digwyddiadau arbrofol** yn ymwneud â chreu ac anfon delweddau noeth neu hanner noeth, heb unrhyw gysylltiad ag oedolyn, dim bwriad amlwg i niweidio na chamddefnydd byrbwyll.

   - Mae achosion **rhamantus** yn cynnwys pobl ifanc mewn cydberthnasau parhaus sy'n creu delweddau ar gyfer eu hunain neu ei gilydd – ni fwriadwyd i'r delweddau gael eu rhannu i neb heblaw'r pâr dan sylw.
   - **Ceisio sylw rhywiol:** daw'r ymadrodd 'ceisio sylw rhywiol' neu *'sexual attention seeking*' yn uniongyrchol o'r deipoleg; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall digwyddiadau yn y categori hwn fod yn rhan o blentyndod arferol. Ni ddylai plentyn na person ifanc gael ei feio am dynnu a rhannu delwedd ohono ei hun.
   - **Arall:** ceir achosion lle nad yw'n ymddangos bod elfennau gwaethygedig yn perthyn iddynt, gan gynnwys cyfranogiad oedolyn, cymhellion maleisus neu gamddefnydd byrbwyll, ac nad ydynt ychwaith yn perthyn i'r is-fathau 'rhamantus' neu 'geisio sylw'. Mae'r rhain naill ai'n ymwneud â phobl ifanc sy'n tynnu lluniau ohonynt eu hunain ar eu cyfer eu hunain (dim tystiolaeth o anfon neu rannu na bwriad i wneud hynny) neu blant cyn glasoed (naw oed neu iau) nad yw'n ymddangos bod ganddynt gymhellion rhywiol.

**Taflen adnoddau 2: Astudiaethau achos**

Astudiaethau achos wedi eu haddasu o *Sexting: A typology* gan J Wolak a D Finkelhor (Prifysgol New Hampshire – Crimes against Children Research Center, 2011).

**Astudiaeth achos 1**
Roedd un ferch (naw oed gyda mân anawsterau dysgu) yn siarad â grŵp o ffrindiau o’r ysgol drwy gyfrwng ap negeseuon poblogaidd. Roedd ei ffôn symudol, a oedd â chamera, i fyny'r grisiau yn ei hystafell. Roedd yn paratoi i fynd i’r gwely ac yn eistedd mewn tywel a 'fflachiodd' ar we-gamera. Y diwrnod canlynol, bu i ddysgwr arall (merch 10 oed) o’r grŵp ddweud wrth yr athro dosbarth yn yr ysgol beth oedd wedi digwydd, ac yn ei thro bu i honno adrodd am ei phryder i’r pennaeth.

**Astudiaeth achos 2**
Bu i ferch Blwyddyn 6 (11 oed) decstio llun ohoni ei hun yn fronnoeth, ond wedi ei gorchuddio, at ei chariad 12 oed (cyn-ddisgybl). Ni ddigwyddodd unrhyw weithred rywiol rhyngddynt cyn y digwyddiad hwn ar-lein nac all-lein. Canfuwyd y ddelwedd ar ffôn symudol y bachgen gan ei fam a ddileodd y ddelwedd, ac yna cysylltodd â rhieni’r ferch. Bu i rieni’r ferch gysylltu â’r ysgol i gael cyngor.

**Astudiaeth achos 3**
Anfonodd merch 15 oed lun bronnoeth ohoni ei hun at ei chariad. Roedd hithau hefyd yn 15 oed. Ar ôl iddynt wahanu, bu i’r ferch anfon y llun at nifer o’i ffrindiau, a bu i nifer o’r rai a’i derbyniodd anfon y llun ymlaen at eraill. Daeth hyn i sylw’r ysgol pan fu i un person a dderbyniodd y llun ddweud wrth ei rieni. Erbyn hynny, roedd dros 200 o ddisgyblion wedi derbyn y llun.

**Astudiaeth achos 4**
Bu i rieni merch 14 oed ganfod lluniau noeth ohoni ar ei dyfais symudol, a bu iddynt gysylltu â’r ysgol i gael cyngor. Cyfaddefodd ei bod wedi anfon y llun at ddyn 37 oed yr oedd wedi ei gyfarfod ar-lein. Dywedodd y ferch ei bod mewn cariad â’r troseddwr, oedd yn byw mewn rhan arall o’r wlad. Nid oedd y dioddefwr erioed wedi ei gyfarfod wyneb yn wyneb.

**Astudiaeth achos 5**
Dywedodd merch 14 oed wrth y DSP iddi dderbyn llun o un o'i ffrindiau 13 oed yn noeth. Roedd ei ffrind wedi anfon y llun at fachgen, 15 oed, roedd yn ei hoffi i ddechrau, a oedd yn mynychu ysgol gyfagos.

**Astudiaeth achos 6**
Bu i rieni disgybl 16 oed gysylltu â’r ysgol oherwydd bod bachgen yn blacmelio eu merch. Dywedodd y dioddefwr ei bod yn ddamweiniol wedi lanlwytho llun noeth ohoni ei hun ar safle rhwydwaith cymdeithasol. Pan sylweddololodd hynny, dileodd y ddelwedd, ond roedd bachgen o ysgol arall eisoes wedi ei lawrlwytho. Roedd yn bygwth ei rannu os na fyddai’n anfon mwy o luniau noeth ato. Pan wrthododd y ferch, bu i’r bachgen anfon y llun at tua 100 o bobl.

**Astudiaeth achos 7**
Defnyddiodd merch 16 oed y rhyngrwyd i anfon lluniau rhywiol iawn ohoni ei hun at nifer o ddynion. Roedd yn defnyddio cyfrifiadur wedi ei ddwyn oherwydd bod ei rhieni wedi cymryd ei chyfrifiadur oddi wrthi. Bu i’w rhieni ddarganfod y trafodaethau ar-lein a chysylltu â’r ysgol i gael cyngor.

**Astudiaeth achos 8**
Tynnodd merch 13 oed luniau rhywiol o’i thair chwaer iau (5, 6 ac 8 oed) a’u cyffwrdd yn rhywiol. Datgelodd cyd-ddisgybl yr wybodaeth hon i’w hathro dosbarth. Roedd gwasanaethau cymdeithasol plant wedi bod yn gweithio gyda’r teulu ers peth amser.

**Astudiaeth achos 9**
Postiodd merch 14 oed o’r ysgol ddeunydd ohoni ei hun yn ei dillad isaf yn esgus ei bod yn cael rhyw drwy’r geg; nid oedd DSP yr ysgol wedi gweld hyn, ond cafodd wybod gan ddisgyblion. (Roedd y DSP mewn ysgol gyfagos wedi cysylltu i godi ymwybyddiaeth o ‘gystadleuaeth’ leol rhwng plant er mwyn gweld beth oedd y fideos mwyaf mentrus y gallent eu lanlwytho i wefannau cyfryngau cymdeithasol heb i rywun adrodd am y fideos ac iddynt gael eu tynnu oddi yno.) Pan godwyd y mater  gyda’r disgybl, mynnodd nad oedd yn wir a’i bod yn gwisgo’i dillad yn y fideo.

**Astudiaeth achos 10**
Bu i fachgen 16 oed oedd wedi cael ei fwlio yn yr ysgol a’i gellwair am ei 'anatomi gwrywaidd' dynnu llun o’i bidyn a’i anfon at gyd-ddisgybl benywaidd. Yn ei thro, bu i honno, heb ganiatâd, anfon y llun at bedair o ferched eraill. Datgelwyd y digwyddiad pan fu i athro gymryd ffôn symudol y bachgen a chanfod ei fod yn defnyddio’r llun fel arbedwr sgrin ar ei ffôn.

**Astudiaeth achos 11**
Anfonodd bachgen 13 oed lun ohono’i hun yn mastyrbio at ddisgybl arall yn ei ddosbarth. Roedd hyn yn sioc i’r disgybl a rhannodd y ddelwedd gyda dau arall yn gofyn am eu cyngor ynghylch beth i’w wneud. Dangosodd un o’r disgyblion y ddelwedd i’w rieni, ac e-bostiwyd y ddelwedd ganddyn nhw at y tiwtor dosbarth yn yr ysgol yn mynnu bod rhywbeth yn cael ei wneud.

**Astudiaeth achos 12**
Roedd dau fachgen 16 oed a oedd mewn perthynas wedi wynebu rhywfaint o ddifrïo homoffobaidd ar-lein, gyda rhywun wedyn yn defnyddio '*photoshop*' i roi eu pennau ar ddelweddau pornograffig a rhannu’r delweddau hynny. Soniodd un o'r bechgyn wrth aelod o staff am yr hyn a ddigwyddodd ac eglurodd fod y ddau wedi cyfnewid delweddau noeth. Honnodd person ifanc arall fod ganddo gopi o'r ddelwedd (er nad oedd unrhyw brawf o hyn) ac roedd wedi bygwth ei rhannu. Roedd un o'r bechgyn yn poeni petai ei deulu yn dod i wybod am ei berthynas y gallai fod 'canlyniadau difrifol i'w ddau ohonom'.

**Astudiaeth achos 13**
Anfonodd bachgen 15 oed luniau noeth o'i hun at dair merch wahanol yn ei ysgol, heb iddynt ofyn amdanynt. Dywedodd un o'r merched wrth ei hathro dosbarth.

**Astudiaeth achos 14**
Bu i ferch 17 oed bostio lluniau noeth ohoni ei hun ar wefan rhwydwaith cymdeithasol. Bu i’r wefan glustnodi’r delweddau fel delweddau posibl o gam-drin plant, eu dileu ac adrodd am y digwyddiad i NCA-CEOP, a gyfeiriodd yr achos i’r heddlu lleol. Bu i’r heddlu gysylltu â’r ysgol a siarad â’r ferch, ond ni chafodd ei chyhuddo.

**Astudiaeth achos 15**
Bu i ferch 11 oed dynnu llun o’i bronnau gyda’i ffôn symudol. Bu i’w nain a’i thaid (ei mamgu a’i thadcu) ddarganfod y delweddau, heb sylwi mai lluniau o’u wyres oeddynt ac aethant â’r ffôn i’r ysgol. Pan holwyd y ferch, bu iddi gyfaddef ei bod wedi tynnu lluniau ohoni ei hun, ond nad oedd wedi eu hanfon at neb.

**Tafle adnoddau 3 - Ymateb**

| **Astudiaeth achos** | **Sylwadau** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |
| 5 | | |
| 6 | | |
| 7 | | |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | | |
| 9 | | |
| 10 | | |
| 11 | | |
| 12 | | |
| 13 | | |
| 14 | | |
| 15 | | |